

Cofnodion cyfarfod rhif 78 Pwyllgor Cyngori Cymru a gynhaliwyd drwy 'Teams' ar 15 Medi 2020

Yn bresennol

Hywel Wiliam	Y Cadeirydd
Andrew Board	Aelod
Peter Trott	Aelod
Robert Andrews	Aelod
Ruth McElroy	Aelod

Hefyd yn bresennol

David Jones	Aelod Bwrdd Ofcom ar ran Cymru
Sian Phipps	Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau
Eleanor Marks	Cyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru
Elinor Williams	Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
Meleri Evans	Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru
Joanna Davies	Uwch Swyddog Cyswllt yr Iaith Gymraeg, Ofcom Cymru
Emma McFadyen	Pennaeth Polisi Cyhoeddus (Gwledydd)
Liz Nash	Cynorthwydd Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

Ymddiheuriadau

Aled Eirug	Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys
Rem Noormohamed	Aelod
Katie Pettifer	Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus, Ofcom

Eitemau ar yr Agenda	Gweithredu
Cyflwyniad 1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 78 Pwyllgor Cyngori Cymru. Croesawodd Sian Phipps yn arbennig i'w chyfarfod cyntaf fel Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau.	
Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar 2. Dywedodd David Jones ei fod wrthi'n gweithio'n anffurfiol gydag Archwilio Cymru ar barodrwydd seiber gan gynnwys nifer o gyrff a noddir yng Nghymru.	
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2020 a materion yn codi – Cofnodion PCC 77(3) 3. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2020 wedi cael eu dosbarthu i'r Aelodau'n barod ac roedd y newidiadau wedi cael eu gwneud felly cawsant eu CYMERADWYO . Materion yn codi/Camau gweithredu heb eu cyflawni- <ul style="list-style-type: none">Roedd nodyn cryno o ddigwyddiad y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol wedi cael ei ddisbarthu a bydd yr Aelodau'n parhau i gadw llygad ar hyn.	

<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am Archwiliad Cyfryngau y Sefydliad Materion Cymreig. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddiweddarach ym mis Medi a bydd diweddariad yn cael ei ddsbarthu i'r Aelodau. Ar ôl i'r archwiliad drafft ddod i law, bydd gofyn i grŵp bach o Aelodau roi sylwadau ar ei gynnwys. Gofynnwyd i Ofcom Cymru helpu hefyd i gyfrannu at y digwyddiad. • Gofynnodd un o'r Aelodau a gafwyd ymateb o lythyr PCC i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch y Chwe Gwlad – Ofcom Cymru i fynd ar drywydd hyn. GWEITHREDU • Cafwyd trafodaeth ynghylch gwelededd PCC a beth oedd y ffordd orau o sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael gwybod am gamau gweithredu'r Pwyllgor. Trafododd yr aelodau a ddylid cyhoeddi cyfathrebu o'r fath er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r Pwyllgor yn ymddangos yn dryloyw. Cytunodd y Pwyllgor i drafod ymhellach yn nes ymlaen a chytuno ar ba sianeli fyddai'n fwy priodol. • Ychwanegodd yr Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ei bod yn awyddus i ymgysylltu â chyrrff defnyddwyr ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o waith y Panel. • Mae'r cyhoeddiad 'Peidiwch â'm Datgysylltu' gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau bellach wedi cael ei ddsbarthu i'r Aelodau. 	<p>EW</p> <p>RMcE/HW/ EM</p> <p>SP</p>
<p>Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar</p> <p>4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar o'r gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymryd rhan mewn trafodaeth RTS 'Lockdown and Beyond'. Cytunodd i rannu'r recordiad gyda'r Aelodau. GWEITHREDU • Presenoldeb mewn cyfarfod Teams gyda holl Gadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori. Cyfarfod defnyddiol iawn ac yn ei sgil, mae Cadeirydd Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad wedi cytuno i drefnu cyfarfod yn y dyfodol rhwng pob Cadeirydd a Phrif Weithredwr a Chadeirydd Ofcom. • Mynychodd gyfarfod y Rhwydwaith Radio Cymunedol fel sylwedydd a oedd yn trafod fframwaith ar sut bydd gorsafoedd yn parhau yng Nghymru. • Paratôdd ymateb y Pwyllgor i Gynllun Blynyddol y BBC. • Cymerodd ran yn y digwyddiad rhithiol yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar wasanaethau symudol/band eang gwledig. 	<p>HW</p>
<p>Y Diweddariad: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom – ar lafar</p> <p>5. Rhoddodd yr Aelod Bwrdd ar ran Cymru ddiweddariad llafar llawn a chrynodeb o bynciau allweddol dros y misoedd diwethaf, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y mater parhaus sy'n ymwneud â darlledwyr yn y DU a diffiniad clir rhwng materion sy'n ymwneud â Chymru a gweddill y DU. • Open RAN – perthnasedd ei effaith yng Nghymru. • Diffodd PSTN. • Niwed Ar-lein. • Diweddariad ar seiberddiogelwch • Cyfrifoldeb Ofcom o ran rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideo. • Y Post Brenhinol. 	
<p>Y Diweddariad: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom</p> <p>6. Yn anffodus, nid oedd yr Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd salwch, ond roedd eisoes wedi derbyn papur diweddaru a oedd yn tynnu sylw at faterion a drafodwyd gan y Bwrdd Cynnwys. Nododd yr aelodau ddau bwynt o ddiddordeb yn yr adroddiad:</p>	

<ul style="list-style-type: none"> • Effaith weithredol a strategol ar Ofcom yn sgil cael ei benodi'n rheoleiddiwr ar gyfer niwed ar-lein. • Posibilrwydd y bydd Ofcom yn cael pwerau newydd i reoleiddio VSPs yn y DU. 	
<p>Adroddiad – Polisi Cyhoeddus</p> <p>7. Nid oedd Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus Ofcom yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, ond roedd eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddar yn amlinellu datblygiadau allweddol Llywodraeth y DU a'r Senedd ers y cyfarfod diwethaf. NODWYD</p>	
<p>Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau</p> <p>8. Croesawodd aelodau a staff Ofcom Cymru yr Aelod newydd ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a rhoddodd hithau grynodedd byr o'i chefnidir a'i gyrfa.</p> <p>9. Roedd papur wedi cael ei ddosbarthu'n barod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am weithgareddau'r Panel ers y cyfarfod diwethaf. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llwyddiant a gwaith yr Hybiau Defnyddwyr. Cafwyd ymateb da i Hyb Cymru – cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7^{fed} Hydref a bydd yn cael ei gadeirio gan yr Aelod ar ran Cymru ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfathrebu y mae defnyddwyr a microfusnesau gwledig yn eu hwynebu yng Nghymru. Bydd yr aelodau'n cael gwahoddiad i fod yn bresennol. • Cyhoeddi Cynllun Strategol y Panel. Dywedodd un o'r Aelodau nad oedd sôn am ddiffodd PTSN yn yr adroddiad er bod cyflwyniad a thrafodaeth dda wedi mynd rhagddynt yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Cytunodd yr Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau i roi adborth i'r Panel. • Bydd y Panel yn parhau i roi sylw penodol i anghenion pobl mewn amgylchiadau bregus – a allai, am ryw reswm neu'i gilydd, fod dan anfantais yn ariannol neu fel arall. Awgrymodd un o'r Aelodau y gallai darparwyr cyfathrebiadau wneud mwy i hwyluso gallu defnyddwyr i israddio eu pecyn, nid dim ond uwchraddio. Roedd pryder hefyd fod yr henoed fel pe baent yn cael eu gadael ar ôl a bod technoleg yn cynyddu'r bwlch digidol. Awgrymwyd bod hwn yn bwnc y gellid ei drafod yn un o gyfarfodydd Hyb Cymru yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau i roi adborth am sylwadau'r Aelodau i'r Panel. • Eglurodd un o'r Aelodau fod gwaith ymchwil yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ymysg y diwydiannau creadigol ar allgau digidol a'r gwahaniaeth digidol rhwng y grŵp oedran hŷn. Gallai hyn fod yn gyfle i Ofcom ganfod pwy a sut mae pobl yn cael eu hallgau ac effaith hyn. Gofynnodd a fyddai modd cynnwys Aelodau pe bai unrhyw hyfforddiant perthnasol ar gael. • Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau diweddar y Panel ynghylch y post a phryderon defnyddwyr. 	<p>SP</p> <p>SP</p> <p>SP</p> <p>SP</p>
<p>Anghenion Defnyddwyr Post</p> <p>10. Ymunodd cydweithwyr Ofcom â'r cyfarfod a rhannu pecyn sleidiau ar anghenion Defnyddwyr y Post. Trafododd yr aelodau gynnwys y cyflwyniad gan nodi bod angen gwasanaethau post o hyd er bod mwy a mwy o sefydliadau yn mynd ar-lein. Nodwyd cynnydd mewn post personol yn ystod y pandemig presennol. Diolchodd yr aelodau i'r tîm am gyflwyniad rhagorol.</p>	
<p>Adroddiad Blynyddol Ofcom ar berfformiad y BBC</p>	

11. Rhoddodd un o gydweithwyr Ofcom gyflwyniad byr i'r eitem a thynnodd sylw at feysydd allweddol o adroddiad a ddsbarthwyd yn flaenorol. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Nodwyd bod Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC wedi'u cyhoeddi ar 15 Medi a gofynnodd y tîm am unrhyw adborth gan Aelodau. Beth yw'r prif faterion? Beth hoffech chi ei weld yn yr adroddiad eleni?
- Nodwyd bod y Pwyllgor wedi paratoi dogfen yn amlinellu ei safbwyntiau a'i faterion a'i fod yn disgwyl ymateb gan Ofcom. Pwysleisiodd yr aelodau bod angen parhau i sicrhau bod y BBC yn cael ei ddwyn i gyfrif, a bod gan Ofcom gyfrifoldeb dros sicrhau bod y cylch gwaith, a'r dibenion cyhoeddus cysylltiedig, ar gyfer pob gwasanaeth, yn cael eu cyflawni. Cytunodd y tîm fod y BBC wedi cael rhywfaint o hyblygrwydd yn ystod Covid, felly hefyd bob darlledwr arall, ond y byddai Adroddiad Blynyddol eleni yn ailystyried ac yn atgoffa'r BBC bod angen ymateb yn llawn i rai meysydd a amlinellwyd yn adroddiad y llynedd yn ogystal â chraffu ar feysydd newydd a nodwyd fel materion a allai beri pryder.
- Pwysleisiodd y tîm, mewn ymateb i rai pwyntiau, er enghraifft cyrraedd cynulleidfaoedd iau, nad oedd modd gwneud newidiadau dros nos. Mae Ofcom yn monitro'r cyfeiriad y bydd yn ei ddilyn gan fynnu ymateb boddhaol. Mae angen i Ofcom edrych ar y darlun hirdymor i weld a fydd rhai o'r materion yn cael effaith gydag amser.
- Mynegodd yr aelodau bryderon fod ymateb y BBC i 'dangynrychiolaeth' yn anfoddfaol. Dywedodd y tîm fod y Pwyllgorau Cyngori eraill yn rhannu'r pryderon hyn. Credir bod angen i'r BBC egluro ei strategaeth ar gyfer y Gwledydd yn well a bod angen i Ofcom wthio'n galetach.
- Trodd y drafodaeth at BBC Studios. Mae pryderon yn y diwydiant ynghylch pwy sydd â'r pŵer. Cytunodd cydweithiwr yn Ofcom i godi hyn gyda'r tîm a oedd yn edrych ar waith Studios a bydd Ofcom Cymru yn hwyluso trafodaeth rhyngddynt nhw, Aelodau a'r Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y tîm fod cwotâu rhwydwaith wedi cael eu cyflawni ar gyfer 19/20.

KS/EW

Prosiect Cyfarwyddwyr Anweithredol y Genhedlaeth Nesaf

12. Rhoddodd cydweithwyr o dîm Llywodraethu ac Atebolrwydd Ofcom gyflwyniad ar fenter i ehangu'r gronfa dalent o Gyfarwyddwyr Anweithredol. Amlinellwyd eu cynlluniau fel a ganlyn a gwahoddwyd yr Aelodau i roi adborth ar unrhyw brofiadau personol ac awgrymiadau ar gyfer helpu i gynyddu diddordeb.

- Y syniadau cychwynnol yw cynnig nifer fach o gyfleoedd i gysgodi a mentora, gan roi cyfle i arsylwi Pwyllgorau/Byrddau a gwahodd siaradwyr o'r Llywodraeth a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i roi cipolwg gwell ar waith y Cyfarwyddwyr Anweithredol. Y gobaith hefyd yw y gallai hyn ysbrydoli'r Cyfarwyddwyr Anweithredol presennol i ystyried ymgeisio am swyddi Cadeirydd.
- Y manteision i Ofcom – mwy o amrywiaeth o ran syniadau, lleihau manau dall, cael cronfa ar gyfer y rheini a fydd yn cael eu penodi yn y dyfodol, sicrhau talent, cydweithio â phartïon eraill. Unigolion – ennill profiad. Datblygiad personol.
- Roedd yr aelodau'n gefnogol iawn i'r cynllun a chytunwyd i rannu unrhyw gysylltiadau a phrofiadau personol gyda'r tîm. Cyflwynodd un o'r Aelodau achos

PCC

<p>dros becyn sefydlu cadarn i Ofcom a'i strwythur sefydliadol, gan gynnwys rolau'r holl Fyrddau/Pwyllgorau amrywiol.</p>	
<p>Diffodd PSTN</p> <p>13. Croesawodd y Cadeirydd gydweithwyr Ofcom. Mae hwn yn faes gwaith y mae PCC wedi bod yn ymwneud ag ef ers cryn amser a chroesawodd y Pwyllgor y diweddariad. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dyddiad diffodd nawr wedi'i drefnu ar gyfer 2025. Mae'r llwybr mudo wedi bod yn fwy serth oherwydd Covid. • Mae'n anodd gwybod ar ba seilwaith/sectorau y bydd symud i VOIP yn effeithio. Mae ymgysylltiad y diwydiant wedi bod yn dda ond mae angen i Ofcom fonitro'n ofalus a sicrhau bod momentwm yn cael ei gynnal o hyn ymlaen nes bydd yn cael ei ddiffodd. • Cadarnhaodd y tîm y bydd llinellau ISDN yn diflannu ar yr un pryd a fydd yn effeithio ar actorion a newyddiadurwyr yn bennaf, ond bydd dewisiadau amgen ar y rhynggrwyd. • Nodwyd bod y cynnydd wedi arafu oherwydd bod gweision sifil wedi cael eu secondio i feysydd gwaith eraill oherwydd Covid. • Mae gan Ofcom bwerau ffurfiol cyfyngedig ond mae wedi nodi mesurau i ddiogelu defnyddwyr yn ystod y broses ddiffodd ee mynediad diderfyn at 999 ac ati. Mae cwmnïau'n gyfarwydd iawn â'r hyn sydd angen ei wneud. Mae Ofcom yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yn monitro'r treialon. • Cytunodd PCC i gadw golwg ar y sefyllfa a thynnu sylw ati ar bob cyfle. • Mae Llywodraeth Cymru ar fin cynnal digwyddiad traws sector a ohiriwyd i godi ymwybyddiaeth. 	
<p>Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru</p> <p>14. Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddar a ddisbarthwyd yn flaenorol. Tynnodd Cyfarwyddwr Cymru sylw at rai o'r uchafbwyntiau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddwyd Adroddiad Cyfryngau'r Genedl yn llwyddiannus iawn – cafodd Ofcom rywfaint o gyhoeddusrwydd cadarnhaol ledled y DU a chyfwelwyd ag un o gydweithwyr Ofcom Cymru ar y cyfryngau yng Nghymru. • Mae trafodaethau ynghylch darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau gyda darlledwyr. • Mae Ofcom yn cynnal trafodaethau â BT ar hyn o bryd ynghylch y taliadau USO gormodol sy'n cael eu dyfynnu gan BT. • Bydd cyfarfod rhagarweiniol rhwng prif weithredwr Ofcom a Phrif Weinidog Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal ar 23^{ain} Medi (nawr wedi'i ohirio tan fis Tachwedd). • Tynnodd Cyfarwyddwr Cymru sylw at nifer o ddigwyddiadau rhithiol llwyddiannus iawn a drefnwyd gan y tîm a diolchodd i aelodau'r tîm am eu hymdrechion. • Trafodwyd effaith Covid ar y gweithlu newyddion a'r sgrin. Nid yw llawer o bobl wedi bod yn gymwys i gael ffyrlo – mae hyn wedi effeithio'n ddrwg ar y diwydiant. • Gofynnodd un o'r Aelodau sut byddai effaith cyfrifoldebau ychwanegol ar Ofcom yn effeithio ar dîm Ofcom Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Swyddog Cyswllt newydd wedi cael ei recriwtio i gynorthwyo gydag ymrwymadau iaith Gymraeg ychwanegol ac mae hi'n monitro pa gyfrifoldeb ychwanegol y gallai fod angen i swyddfa Cymru ymgymryd ag ef yn y dyfodol. 	

<ul style="list-style-type: none"> Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod swyddfeydd y Gwledydd bellach yn rhan wahanol o strwythur Ofcom – sydd bellach yn rhan o'r Grŵp Corfforaethol o dan Gyfarwyddwr newydd. 	
<p>Dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr) - Trafodaeth Aelodau</p> <p>15. Trafododd yr aelodau'r camau nesaf a oedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Amserlen gyfredol – mae PCC wedi cyfrannu at gyhoeddi'r ymgynghoriad drafft ac mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ddechrau 2021. PCC i ymateb yn swyddogol. Mae Ofcom Cymru yn bwriadu cynnal digwyddiad rhithiol arall ddiwedd Hydref/dechrau Tachwedd. Mwy o fanylion i ddilyn. Gofynnodd Ofcom Cymru i Aelodau gyfrannu at y cynnwys. Awgrymwyd y dylid ffurfio is-grŵp i drafod mewnbwn ac achub y blaen ar faterion a allai godi. 	EW
<p>Niwed Ar-lein</p> <p>16. Ymunodd cydweithwyr Ofcom â'r cyfarfod a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am broses o ymgysylltu â'r Llywodraeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> Disgwylir ymateb llawn i'r Papur Gwyn ar Niwed Ar-lein ddechrau Hydref ar yr un pryd ag y disgwylir cyhoeddiad y rheoleiddiwr newydd. Rheoleiddio VSPs – mae Ofcom yn ymgysylltu â'r Llywodraeth ar fframwaith rheoleiddio niwed ar-lein. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Swyddfa Gartref ill dwy yn ymwneud â diogelu plant a gwrth-derfysgaeth a seiberddiogelwch. Bydd Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau yn y DU. Gofynnodd un o'r Aelodau a oedd unrhyw gwmnïau yng Nghymru a fyddai'n cael eu cwmpasu? Ofcom Cymru i roi cyngor yn dilyn cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru ar y pwnc hwn. Trafododd yr aelodau a'r tîm oblygiadau Brexit ar yr AVMSD a gyhoeddwyd yng nghyfraith y DU pan ddaw'r cyfnod pontio i ben. Cytunodd y Pwyllgor i edrych yn fanwl ar ymateb y Llywodraeth ar ôl ei gyhoeddi. Holodd yr aelodau pa effaith y byddai cyfrifoldeb rheoleiddio ychwanegol yn ei chael ar PCC wrth symud ymlaen. Bydd Ofcom yn monitro hyn. 	EM
<p>Bauer/Swansea Sound</p> <p>17. Ystyriodd PCC bapur a gyflwynwyd gan y Cadeirydd, a oedd yn cynnwys yr ohebiaeth e-bost gan grŵp ymgyrchu lleol, Achub Swansea Sound. Roedd rhywfaint o dristwch ynghylch colli'r enw a'r brand Cymreig eiconig hwn fel yr orsaf radio fasnachol gyntaf i ddechrau darlledu yng Nghymru yn ôl yn 1974. Roedd hefyd elfen gadarnhaol oherwydd bydd y gwasanaeth ar gael yn ehangach ar DAB ar draws de-ddwyrain Cymru am y tro cyntaf yn ogystal ag yn ardal Abertawe. Roedd PCC yn ymwybodol bod newid enw a brandio y tu allan i gylch gwaith Ofcom ac roedd yn croesawu'r ffaith na fu unrhyw gais hyd yma i newid fformat yr orsaf. Mae darparu newyddion a thraffig lleol yn dod o dan y canllawiau lleolrwydd y mae'n rhaid iddynt lynu wrthynt.</p>	HW
<p>Y diweddaraf am gwynion defnyddwyr</p> <p>Cynnwys NODWYD.</p>	

Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod 18. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gadw golwg ar rai ymgynghoriadau yn y dyfodol. Cytunodd i restru pa rai fyddai o ddiddordeb ac i enwebu Aelodau yn erbyn pynciau. Bydd pynciau o ddiddordeb yn cael eu hanfon ymlaen at Ofcom Cymru a fydd yn rhoi rhagor o fanylion.	HW/ EW
Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol I'w drafod.	
Eitemau er gwybodaeth – NODWYD	